

Erthygl 12 – Gwneud Penderfyniadau

12.1 Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn diweddarau cofnod o ba ran o'r Cyngor neu ba unigolyn sydd â chyfrifoldeb am wahanol fathau o benderfyniadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau arbennig. Cyflwynir y cofnod hwn yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

12.2 Egwyddorion gwneud penderfyniadau

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- (a) bod yn gymesur (h.y. rhaid i'r cam gweithredu fod yn gymesur â'r canlyniad a ddeisyfir);
- (b) ymgynghori'n briodol a chymryd cyngor proffesiynol gan swyddogion;
- (c) parchu hawliau dynol (gweler isod am ragor o fanylion);
- (d) rhagdybiaeth o blaid bod yn agored; ac
- (e) bod yn glir ynghylch nodau a'r canlyniadau a ddeisyfir;
- (f) cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad ynghyd â chofnodi unrhyw fuddiant personol a ddatgelir, unrhyw hawl i siarad a ganiateir gan bwyllgor safonau'r Awdurdod, a manylion am yr ymgynghori a wnaed.

12.3 Penderfyniadau a gedwir i'r Cyngor llawn

Gwneir penderfyniadau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.2 gan y Cyngor llawn ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo oni nodir fel arall.

12.4 Gwneud penderfyniadau gan y Cyngor llawn

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.8 isod, bydd cyfarfod o'r Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

12.5 Gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd Gweithredol

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.8 isod, bydd y Bwrdd Gweithredol yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

12.6 Gwneud penderfyniadau gan bwyllgorau craffu

Bydd pwyllgorau craffu yn dilyn y Rheolau Gweithdrefn Craffu a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

12.7 Gwneud penderfyniadau gan bwyllgorau eraill a sefydlir gan y Cyngor

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.8 isod, bydd pwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn y rhannau hynny o Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn sy'n gymwys iddynt hwy.

12.8 Gwneud penderfyniadau gan gyrrff y Cyngor sy'n gweithredu fel tribiwnlysoedd

Bydd y Cyngor, Cynghorydd neu Swyddog sy'n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu sy'n penderfynu/ystyried (ac eithrio i bwrpas rhoi cyngor) hawliau dinesig a rhwymedigaethau neu gyfrifoldeb troseddol unrhyw berson, yn dilyn gweithdrefn briodol sy'n cyd-fynd â gofynion cyfiawnder naturiol a'r hawl i brawf teg a gynhwysir yn Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.